WHC/2019/022

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Dyddiad Cyhoeddi: 04 Hydref 2019**

**STATWS: CYDYMFFURFIO**

**CATEGORI: SAFONAU**

**Teitl:** Gweithredu Safonau PROMPT mewn Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru

**Dyddiad Adolygu:** Hydref 2024

**I'w weithredu gan:**
Brif Weithredwyr y Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Nyrsio, Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Meddygol, Byrddau Iechyd
Penaethiaid Bydwreigiaeth, Byrddau
Iechyd Cyfarwyddwyr Clinigol (Mamolaeth)

**Camau i'w cymryd:**
**Gweithredu safonau PROMPT Cymru yn llawn gan bob bwrdd iechyd**

**Anfonwyd gan:** Yr Athro Jean White - Y Prif Swyddog Nyrsio

**Enw(au) Cyswllt GIGC Llywodraeth Cymru:**
*Karen Jewell - Swyddog Nyrsio (Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar), Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ Ffôn: 03000 255218 e-bost: Karen.jewell@llyw.cymru*

**Dogfen(nau) amgaeedig:** Llythyr gan y Prif Swyddog Nyrsio a'r Prif Swyddog Meddygol ynglŷn â safonau PROMPT

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Annwyl Gyfeillion

Rydym wedi bod wrth ein boddau gydag ymateb yr holl sefydliadau i roi PROMPT Cymru ar waith. Mae'r ymchwil a wnaed mewn sawl awdurdodaeth gan Sefydliad Mamolaeth PROMPT, i effeithiolrwydd egwyddorion PROMPT o ran lleihau niwed y gellir ei osgoi mewn gwasanaethau mamolaeth, yn amlygu bod angen lefel gyson o gyfranogiad gan yr holl glinigwyr sydd ynghlwm â darparu gofal mamolaeth er mwyn cyflawni gweledigaeth a nodau'r rhaglen.

Mae tîm cenedlaethol PROMPT Cymru wedi sefydlu cyfres o Safonau PROMPT Cymru, sy'n galluogi byrddau iechyd i benderfynu ar gyfer pa glinigwyr y mae hyfforddiant PROMPT Cymru yn orfodol, ac yn rhoi platfform i sefydliadau fonitro cydymffurfedd. Rydym yn cefnogi'r safonau hyn ac wedi gofyn i Gronfa Risg Cymru gasglu tystiolaeth o gydymffurfedd yn erbyn y mesurau pwysig hyn.

Fel isafswm, rydym yn disgwyl y bydd staff, gan gynnwys bydwragedd, obstetryddion ac anesthetyddion sy'n rhoi gofal mamolaeth yn rheolaidd, yn ymgymryd â hyfforddiant PROMPT Cymru yn flynyddol. Rydym hefyd yn awgrymu bod staff sy'n gwneud y gweithgareddau hyn - gan gynnwys Ymarferwyr Adrannau Llawdriniaethau a Staff Cymorth Gofal Iechyd yn cael eu hystyried mewn cynlluniau hyfforddiant PROMPT Cymru.

Diffinnir y safonau fel:

**Safon Un**
Penderfynu pa staff ddylai gymryd rhan mewn hyfforddiant PROMPT Cymru

1-1 Byrddau iechyd i nodi pa staff sydd angen ymgymryd â hyfforddiant PROMPT Cymru a rhoi gwybod i dîm Cronfa Risg Cymru gan nodi eu swyddi a nifer y staff
1-2 Byrddau iechyd i ddiweddaru eu hadolygiad o staff sydd angen ymgymryd â hyfforddiant PROMPT Cymru a'i roi i dîm Cronfa Risg Cymru bob chwe mis

**Safon Dau**
Datblygu maes llafur lleol PROMPT Cymru

2-1 Byrddau iechyd i gynhyrchu maes llafur ar gyfer testunau craidd PROMPT Cymru a fydd yn cael eu cynnwys mewn sesiynau hyfforddiant lleol.

2-2 Byrddau iechyd i gyflwyno eu maes llafur wedi'i ddiweddaru yn flynyddol i Dîm Cronfa Risg Cymru.

**Safon Tri**
Sicrhau tîm hyfforddiant amlbroffesiwn

3-1 Dylai'r byrddau iechyd sicrhau timau hyfforddiant lleol, gan sicrhau bod pob elfen o'r gweithlu amlbroffesiwn yn cael eu cynnwys.
3-2 Byrddau iechyd i hwyluso datblygu unigolion fel Hyfforddwyr PROMPT Cymru.


**Safon Pedwar**
Cyfranogiad amlbroffesiwn mewn hyfforddiant PROMPT Cymru

4-1 Dylai'r holl staff (100%), y nodwyd sydd angen ymgymryd â hyfforddiant PROMPT Cymru, gwblhau sesiwn hyfforddiant PROMPT Cymru erbyn 31 Mawrth 2020.
4-2 O 1 Ebrill 2020, bydd o leiaf 95% o staff (y mae angen iddynt ymgymryd â hyfforddiant PROMPT Cymru) yn cwblhau sesiwn hyfforddiant PROMPT Cymru yn flynyddol.
4-3 Byrddau iechyd i ddiweddaru Cofnodion Staff Electronig ar gyfer gweithwyr amlbroffesiwn sydd wedi cwblhau sesiwn hyfforddiant PROMPT Cymru.

Bydd Tîm Cenedlaethol PROMPT Cymru yn rhoi cymorth i bob bwrdd iechyd wrth iddynt ddatblygu cynlluniau a thystiolaeth o gynnydd yn erbyn y safonau hyn.

Bydd tîm Cronfa Risg Cymru yn cysylltu â phob bwrdd iechyd i gasglu gwybodaeth ac adrodd ar gynnydd yn erbyn y safonau i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Mawrth 2020, gyda chyfnod monitro o un chwarter i ddilyn.

Yn gywir



**Yr Athro Jean White CBE, Prif Swyddog Nyrsio Cyfarwyddwr Nyrsio GIG Cymru**



**Dr Frank Atherton**
**Prif Swyddog Meddygol**
**Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru**